**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Llywodraeth Cymru

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2022

Pwnc: Gwarchod nodau masnach ar gyfer geiriau Cymraeg

Annwyl Jeremy,

Rwy'n ysgrifennu i fynegi fy mhryder am y penderfyniad gan y Swyddfa Eiddo Deallusol (IPO) i ganiatáu i'r geiriau 'Welsh cake', 'cariad' a 'hiraeth' gael nodau masnach mewn ymateb i gais gan fusnes cynhyrchu canhwyllau ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r geiriau hyn yn gyffredin yn yr iaith Gymraeg ac yn cael eu defnyddio'n helaeth yng Nghymru gan siaradwyr Saesneg a Chymraeg. Rwy'n synnu bod y Swyddfa Eiddo Deallusol wedi cytuno i'r cais hwn o ystyried pa mor annhebygol yw hi y byddai'n gwneud penderfyniad tebyg ar gyfer geiriau cyffredin cymharol yn yr iaith Saesneg.

Deallaf fod swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn edrych ar ba gamau y gellir eu cymryd i ddirymu'r cais hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi os ydych yn bwriadu cysylltu â'r Swyddfa Eiddo Deallusol ynghylch y penderfyniad hwn.

Nid yw'r geiriau 'cariad' a 'hiraeth' yn perthyn i neb, ac rwy'n bryderus y gallai camau'r Swyddfa Eiddo Deallusol yn yr achos hwn, yn anfwriadol, fod yn gyfystyr â chymeradwyaeth i ymelwa'n fasnachol ar eiriau Cymraeg atgofus sy'n amlwg yn golygu llawer i siaradwyr y ddwy iaith yng Nghymru.

Rwy'n ysgrifennu yn yr un modd at Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**